# *CAN DDUWIOL,*

**YN RHODDI**

***Ychydig ddesgrifiad ar Gyflwr a Dedwyddwch y Saint yn y Nef, y'nghyd a thost Gyflwr yr annuwiol wedi marw, yn y Farn, ac yn Uffern: wedi ei chymmeryd allan o'r Ysgrythyr lan.***

Cenir ar Fynediad i'r Tir teg,—Bellisle March.

---

Gan Thomas Harris, Abertawe.

---

PAWB sy'n rhodio'r byd yn gryno,
Trwy Gymru gwrando 'gyd,
Tlawd, cyfoethog, a phob enwog,
Yn bwyllog yn y byd;
Pawb ac enaid, yn ddiarbed, dewch i glywed cwyn,
Bob rhai i waeddi am ras yr Iesu, trwy Gymru ar bob twyn
Am gyflwr pob dyn byw, yn un o ddau le, clyw,
Pan gawn ein barnu o flaen yr Iesu, gerbron ei deulu gwiw,
Pryd hyn yn union, bydd duwiolion,
Mewn gynau gwynion glân;
A phawb yn gwaeddi, concwest Iesu,
Heb fethu o fawr i fân;
Pan gân yr udgorn mawr, fe gryna'r ddaear lawr,
Fe gwyd yn gynta, deulu Alpha, fydd yma'n llwch y llawr
A phawb o'r seintiau, fydd yn dechreu,
A'u telynau aur heb gur,
I seinio'n ebrwydd, a hono'n burlwydd,
I'w eu Harglwydd pur.

2 Pan ddelo'r Barnwr, ar y cwmwl,
Ein manwl Brynwr glân,
Pryd hyn caiff Seion, a'i thrist achwynion,
Yn union droi yn gân;
Cânt yno'r palmwydd, yn dragywydd,
I *diwnio* 'r newydd dôn,
Am ein prynu, ac am ein caru,
A'n golchi y'ngwaed yr Oen,
Ein tannau fydd yn dŷn, yn seinio clod yn syn,
I'r Brenin hwnw, a fu farw, i'w cadw, ar y bryn;
Ac am eu dala, i ryfela, mewn brwydron cryfa sydd,
Cânt fod mewn undeb, yn ei wyneb,
Dros drag'wyddoldeb ddydd:
Hwy seinia'n ucha gân, a seraph angel glân,
A'u telynorion, oll yn gyson, a'u calon rho'nt y bla'n,
Pawb yn moli, byth heb dewi,
Y'nghwmp'ni Duw ei hun;
Yn cyttuno, o'u bodd i seinio, i'r Siloh yn gyttun.

3 Yno rhoddant, mewn gogoniant,
Ei foliant iddo fyth;
Oll ar gyhoedd, yn y nefoedd, dros oesoedd rif y gwlith:
Ni chaiff un gelyn, dd'od i'w herbyn,
Lai un o'r gerwin lu;
Gelynion wedi, oll eu sathru, trwy goncwest Iesu cu,
Ni ddaw un clefyd mwy, afiechyd attynt hwy,
Pawb mewn urddas, yn y ddinas,
Yn addas heb un clwy';
Pawb yn canmol, o'r holl bobol, llareiddiol yn eu lle,
A'u bywyd yno, wedi ei guddio, gan Siloh yn y ne';
A'r rhai fu'n gaethion sydd, ferthyrwyd yn eu dydd,
Rhai fu mewn brwydrau, a charcharau,
Ar eu siwrneu'n brudd,
Fydd yno'n gwaeddi, concwest Iesu,
Heb fethu funud awr,
Ac yno canant, mewn gogoniant,
Sain moliant fach a mawr.

X2052 19437

4 Mor ofnadwy, ar y llaw aswy, diwrnod hynod fydd,
Pawb yn crynu, eisieu credu, yn Iesu yn eu dydd,
Wrth wynebu, yr farn i'w barnu.
Pwy all draethu'r boen?
Tost fydd cwyno, ganddynt yno,
A'r gwridio y'ngwydd yr Oen,
Eu cluniau'n curo ynghyd, wylofain ar un pryd,
A'u wynebau'n casglu parddu,
Wrth wynebu'r Llew mewn llid,
Yn gwaeddi'n lluoedd, ar fynyddoedd,
Eu cuddio'n rhywfodd gwn,
Yn rhinciau dannedd, heb obaith diwedd,
Dan gamwedd sydd mor drwm,
Fe basir dedryd lân, eu taflu o fawr i fân,
I'r llyn sy'n llosgi, ac yn berwi, i fynu byth o dân,
I'r tân uffernol, yn dragwyddol, rhyfeddol glwyfol yw,
Gael ei cospi, hyd nes talu,
Am bechu yn erbyn Duw.

5. Y corph a'r enaid, gan gythreuliaid,
Yn danbaid boenus bydd,
Pob aelod hynod, am eu bechod,
Cyflawnodd yn ei ddydd,
Hwy fyddant yno, bawb yn cwyno, ac yn rhuo'n syth,
Fawr a bychain yn wylofain, mewn ffwrn o frwmstan fyth,
Y'mysg cythreuliaid maent, am ddwfr oer pe caent,
Hwyr a bore, mae eu poenau,
Dros bob munudau'n haint,
Dros rifedi, na all neb gyfri', tra'r Iesu'n fyw eu hun,
Y caent eu poeni, byth au llosgi,
A'u cospi bob yr un,
Y cythraul fydd yn ddiball, yn sathru naill y llall,
Ddarfu hudo, i ei wrando, ac yno i foddio'r fall,
Pawb yn gwaeddi, gwae fy ngeni, a hyny erioed i'r byd,
Ac na buaswn, lle dyn yn llyffant,
Ystyriwn hyn mewn pryd.

6. Pe byddai gobaith, gwaredigaeth, o'r farwolaeth hon,
Y'mhen mil o filoedd o flynyddoedd,
  Yn lluoedd aent yn llon,
Neu rifedi, nas gallwn gyfri', a hyny er gwellhâd.
Fe fyddai canu, gorfoleddu, a synu trwy'r holl wlad,
Gair byth sy'n tori'n grwn, eu calon oll mi wn,
Nid oes dim nodded, na dim gwared,
  Byth o'r caethiwed hwn;
Ni ddaw trugaredd i eu hanedd, ni ro ymgeledd 'chwaith,
Ein haf a ddarfu, gwae ni bechu,
  Dyna'r gwaeddi a'r iaith,
Pawb mewn marw môr, yn gwaeddi am ddwfr oer,
Ni ddaw diferyn i eu terfyn, gyferbyn'nawr yw'r 'stor,
Pawb yn rhuo'n sy mewn gwallgo',
  Am wawdio pobl Dduw,
Ac at yr 'fengyl, droi eu gwegil,
  Yn wrthyn tra buont byw.

7. Yr hwn sy etto, yn breuddwydio, heb ddihuno ddim,
A'th holl anian, gyda Satan,
  Yn myn'd y'mlaen mewn grym,
Yn myn'd dan gysgu, gael dy farnu, gerbron yr Iesu
Heb edifeirwch, ac heb heddwch, (glân,
  O gwiliwch o fawr i fân,
Ië rhag i angeu 'nawr, roi dyrnod hynod fawr,
Ac mewn munud, i gael ein sumud,
  A'n hyfryd haul fyn'd lawr,
A'n hangor syrthio, i'r wlad honno,
  Nad oes ond gofidio trist,
Yn dra hynod, bob diwrnod, am wrthod crefydd Crist,
O ffown i'r Arch i gyd, at Grist i'r noddfa glyd,
Rhag i ni'r awrhon, heb rybyddion,
  Yn anffrwythlon fyn'd o'r byd,
Duw fo'n llywydd, yn dragywydd,
  Dros fyth ac arwydd nen,
Ac yn y diwedd, mewn gorfoledd,
  Gael meddu hedd, Amen.

---

*Pugh, Argraffydd, Llanfyllin.*